



Cynllun Iaith Gymraeg

Ebrill 2014

1. Mae'r ddogfen hon yn adolygu cynnydd tuag at wireddu argymhellion a fabwysiadwyd yn dilyn adolygiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg.
2. Mae'n cymryd i ystyriaeth ymateb Comisiynydd Y Gymraeg i adroddiadau blynyddol diweddar SNAP Cymru a oedd, yn gyffredinol, yn canmol gwaith y sefydliad yn y maes hwn ond pwysleisio'r angen i'w brif ffrydio..
3. Mae hefyd yn cymryd ystyriaeth o ddatblygiadau deddfwriaethol yn seiliedig ar Fesur yr Iaith [Cymru], 2011, ac yn benodol:
 - Sefydlu safonau statudol ym meysydd cyflwyno gwasanaeth, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion fydd yn disodli Cynlluniau Iaith.
 - Mynnu bod cyrff cyhoeddus sy'n derbyn mwy na £400,000 o gyllid cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'r safonau. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar safonau ac wedi gosod amserlen ar gyfer ymchwiliadau safonau.
 - Mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn cael eu blaenoriaethu ac yn destun ymchwiliad safonau ar hyn o bryd. Bydd hyn yn effeithio ar SNAP Cymru yn rhinwedd y ffaith y bydd yn dylanwadu ar sefydliadau sy'n derbyn cymhorthdal.
 - Hysbyswyd SNAP Cymru y cynhelir ymchwiliad safonau'n Mai, 2015.
4. Fe'i mabwydiadwyd gan y Grwp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn ei gyfarfod ar Hydref 2il, 2013, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar Ragfyr 3ydd, 2013, i'w gyflwyno i'r Cyngor Gweithredol Cenedlaethol ar Ionawr 25ain, 2014. Fe'i hadolygir a'i diwygir yn rheolaidd yn seiliedig ar ddatblygiadau.

Argymhelliad	Adolygiad Cynnydd	Gweithredu Pellach	Gan Bwy	Erbyn Pryd
1. Dylid cynnal trafodaeth â Swyddogion Awdurdodau Lleol ynghylch y disgwyliadau ar SNAP Cymru yng nghyd-destun y safonau statudol.	Er y gwnaethpwyd dau gais am hyn gan ddarparu holiadur, ni ddaeth y wybodaeth i law.	Gohirio nes bydd Awdurdodau Lleol wedi cynnal eu hymchwiliadau safonau a derbyn gorchymyn cydymffurfio.	Uned Hyfforddi	2015

Argymhelliad	Adolygiad Cynnydd	Gweithredu Pellach	Gan Bwy	Erbyn Pryd
<p>2. Dylid sefydlu cynllun strwythuredig ag iddo dargedau uchelgeisiol, fydd yn cynnwys ystyriaethau recriwtio a threfniadau hyfforddi staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn seiliedig ar y dadansoddiad o holiaduron medrau staff, er mwyn datblygu gweithlu dwyieithog.</p>	<p>Cynhyrchwyd cynllun- gweler Atodiad 1.</p>			
<p>3. Dylid ymgymryd ag arolwg pob tair blynedd o sgiliau ieithyddol staff er mwyn olrhain cynnydd mewn sefydlu gweithlu dwyieithog yn seiliedig ar y waelodlin a sefydlwyd trwy arolwg 2010.</p>	<p>Cynhaliwyd arolwg pellach yn 2013.</p>	<p>Cynnal arolwg pellach.</p>	<p>Uned Hyfforddi</p>	<p>Rhagfyr, 2016</p>
<p>4. Ar draws holl ystod gwasanaethau'r sefydliad, dylid annog defnyddwyr i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a sefydlu trefniadau er mwyn eu cyfeirio at aelodau staff priodol.</p>	<p>Bu datblygiadau arwyddocaol yn y cyd-destun hwn. Mae'r taflenni gwybodaeth a adolygwyd yn diweddar yn ddwyieithog. Cynigir gwasanaethau'r Ganolfan Cymorth yn ddwyieithog. Mae'r Wefan yn casel ei datblygu i fod yn llwyr ddwyieithog ac, yn y dyfodol, ni ddefnyddir gwasanaeth Google i gyfieithu deunydd.</p>	<p>Cwblhau cyfieithu'r Wefan a chynnal lansiad.</p>	<p>Simon Westaway</p>	<p>Ebrill, 2014</p>

Argymhelliad	Adolygiad Cynnydd	Gweithredu Pellach	Gan Bwy	Erbyn Pryd
5. Dylid sicrhau bod materion sydd a wnelont â'r Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw yng ngweithdrefnau anwytho a hyfforddi'r sefydliad. Dylai hyn gynnwys hyfforddi staff er mwyn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.	Gweler argymhelliad 2.	Gweler argymhelliad 2.		
6. Dylid cynnal awdit o anghenion cyfieithu ar draws y sefydliad gan flaenoriaethu rhaglen waith.	Comisiynwyd peth gwaith cychwynnol na chwblhawyd.	Cwblhau'r awdit. Trefnu'r cyfieithu.	Simon Westaway	Ebrill, 2014 Parhaus
7. Fel rhan o asesu ardrawiad cydraddoldeb, dylid asesu oblygiadau ieithyddol pob polisi a gweithdrefn.	Ymgwymerwyd ag arolwg cynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnaun a chymerwyd camau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a adbabyddwyd trwy weithredsu addasiadau.	Cynnwys adolygu polisiau a gweithdrefnau diwygiedig a newydd fel eitem barhaol ar raglen y Grwp Tasg cydraddolden a'r Iaith Gymraeg.	Simon Westaway	Parhaus
8. Dylid sicrhau bod gweithdrefnau'n eu lle ar gyfer monitro cyrhaeddiad yn erbyn y targedau a welir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.	Gweler Argymhelliad 2.		Rhys Wyn Parri	Blynyddol

Argymhelliad	Adolygiad Cynnydd	Gweithredu pellach	Gan Bwy	Erbyn Pryd
9. Dylid adnabod pencampwr o blith aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gyda'r swyddogaeth o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad.	Adnabuwyd pencampwr.	Diweddarau'r Pencampwr o ddatblygiadau'n rheolaidd.	Rhys Wyn Parri	Parhaus
10. Adroddiadau blynyddol y Comisiynydd Iaith.	Gan fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd â'r corff a gymerodd ei, le sef Comisiynydd Y Gymraeg, yn fodlon gyda'r sefydliad yn defnyddio'r ddogfen hon i bwrpas cynllunio ac adolygu, ac oherwydd difodiant buan Cynlluniau Iaith Gymraeg, ni ail-ysgrifennywyd y ddogfen.	Mabwysiadu'r Cynllun hwn fel dogfen i ddisdoli'r Cynllun Iaith cyfredol. Cyflwyno'r Cynllun i Gomisiynydd Y Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol. Defnyddio'r ddogfen hon ar gyfer adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd Y Gymraeg.	UDA Cyngor Gweithredol Cenedlaet hol Rhys Wyn Parri Rhys Wyn Parri	Rhagfyr 3ydd, 2013 Ionawr 25ain, 2014 Chwefror, 2014 Blynyddol
11. Dylid ystyried posibiliadau mewn perthynas â chymorthdaliadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Estyn Llaw am y flwyddyn gyllidol 2011/2012.	Cyflwynwyd cais llwyddiannus am nawdd Estyn Llaw yn ystod blwyddyn gyllidol 2011/2012 a alluogodd y sefydliad i sefydlu'r isadeiledd ar gyfer Llinell Gymorth Ffôn ddwyieithog.	Bod yn ymwybodol o'r ffynhonnell hon, a rhai eraill, i'r dyfodol a chylwyno ceisiadau fel bo'n briodol.	Caroline Rawson	Parhaus
12. Dylai'r Grwp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg fonitro cynnyd yn erbyn cyflawni'r argymhellion hyn yn rheolaidd.	Cyflawnwyd hyn.	Parhau i osod y mater hwn ar raglen cyfarfodydd.	Rhys Wyn Parri	Parhaus

Atodiad 1

Cynllun Datblygu Gweithlu: Medi, 2011

1. Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Gweithredu a gynhyrchedd yn sgil arolwg o Gynllun Iaith SNAP Cymru'n cynnwys, ymhlith argymhellion eraill, y canlynol sydd a wnelo â datblygu'r gweithlu. Gelli ddalaumai hwn yw'r argymhelliad mwyaf allweddol o safbwynt gweithredu'r Cynllun:

“Dylid sefydlu cynllun strwythuredig ag iddo dargedau uchelgeisiol, fydd yn cynnwys ystyriaethau recriwtio a threfniadau hyfforddi staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn seiliedig ar y dadansoddiad o holiaduron medrau staff, er mwyn datblygu gweithlu dwyieithog.”

2. Egwyddorion

Argymhelliad 1 Dylid seilio'r Cynllun Datblygu Gweithlu ar y canlynol:

- Cydnabyddiaeth, yng ngholeuni Mesur Y Gymraeg [Cymru], 2011, fydd â'r canlyniad y bydd y disgwyliadau ar SNAP Cymru yn statudol yn hytrach na gwirfoddol, y bydd angen gweithredu cadarn er mwyn cyfieithu dyheadau'r Cynllun yn realaeth.
- Yr angen i fod yn gynyddol ymatebol i ofynion noddwyr. Yn y cyswllt hwn, bydd y drafodaeth gydag Awdurdodau Lleol ynghylch eu gofynion ieithyddol ar SNAP Cymru y bwriedir ei chynnal cyn diwedd 2011 yn dylanwadu ar weithrediad y Cynllun, ond gellir yn ddiogel gymryd yn ganiataol y bydd pob Awdurdod Lleol angen, fel lleiafswm, fynediad i waith achos trwy gyfrwng y Gymraeg tra bydd eraill angen gwasanaeth llwyr ddwyieithog gan gynnwys gwaith datblygol.
- Cydnabyddiaeth mai broses raddol fydd cynyddu cynhwysedd dwyieithog y gweithlu ond bod angen bod yn ymwybodol o gyfleoedd wrth iddynt godi.
- Yr angen i fod yn weithredol wrth gynnig dewis iaith i gwsmeriaid. Yn y cyswllt hwn, mae'r gwaith sydd i'w gynnal yn seiliedig ar “Mae gen ti ddewis”, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a noddir gan Estyn Llaw yn berthnasol.

- Yr angen i liniaru effeithiau negyddol a adnabyddwyd yn ystod yr asesiad ardrawiad cydraddoldeb diweddar o bolisiau a gweithdrefnau o safbwynt rhagfarn yn erbyn siaradwyr Cymraeg.
- Yr angen i gyllido'r Cynllun yn briodol.
- Yr angen i gyflwyno'r Cynllun mewn modd sesitif i staff, er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei amgyffred fel bygythiad yn nhermau datblygiad y busnes a'u datblygiad personol.
- Yr angen am gymeradwyaeth, perchnogaeth a chefnogaeth gweithredol o'r Cynllun gan Bwrdd yr Ymddiriodolwyr ac Uwch Reolaeth.

3. Awdit o Fedrau Cymraeg

Cynhaliwyd awdit o sgiliau Cymraeg staff yn 2011. Datgelodd yr awdit y ffeithiau allweddol canlynol ar yr adeg honno:

- Mae 15% [8] o'r staff yn ystryied bod eu sgiliau'n yr iaith Gymraeg yn "eithaf da neu rhugl" gyda 75% o'r farn mai "dim o gwbl/ychydig" yw eu hyfredredd.
- O safbwynt lleoliad y staff a ystyriodd mai "eithaf da/rhugl" oedd eu sgiliau mae 1 yn y Brif Swyddfa, 1 yn yr Uned Hyfforddi, 1 yn Rhanbarth De Canolog a'r De Ddwyrain, 1 yn Rhanbarth De Orllewin a'r Canolbarth a 4 yn Rhanbarth Gogledd Cymru.
- Mae 9% [5] o'r staff yn dysgu'r Gymraeg, 2 yr un yn Rhanbarth De Canolog a'r De Ddwyrain a Rhanbarth De Orllewin a'r Canolbarth ac un yng Ngogledd Cymru.
- Mynegodd 63% [33] awydd i ddysgu neu gwella eu Cymraeg, 11% [6] yn y Brif Swyddfa, 4% [2] yn yr Uned Hyfforddi, 26% [13] yn Rhanbarth De Canolog a'r De Ddwyrain, 15% [8] yn Rhanbarth De Orllewin a'r Canolbarth a 8% [4] yn Rhanbarth Gogledd Cymru.
- Amrywiodd y math o gwrs o gyflwyniad 15% [8], dechreuwr 34% [18], estyniad 23% [12], c adarnhad 8% [4], adolygu 7% [3] I sgiliau arbennig 2% [1].
- Cyflwynir crynodeb o sefyllfa deilyddion swyddi unigol isod yng nghyd-destun dosbarthiad swyddi.

4. Blaenoriaethu

Argymhelliad 2 I ddechrau, dylai'r cynllun flaenoriaethu datblygiadau fel a ganlyn:

- Sicrhau y datblygir cymhwysedd ar draws Cymru er mwyn cyflwyno gwaith achos trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod effeithiau negyddol a adnabyddwyd yn ystod yr asesiad ardrawiad cydraddoldeb diweddar o bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu lliniaru.

5. Medrau Staff a Dosbarthiad Swyddi

Mae'r tablau'n Atodiad 1 yn crynhoi'r sefyllfa a darparu gwybodaeth gwaelodlin.

Argymhelliad 3 Mabwysiadu'r dosbarthiad swyddi i bwrpas cynllunio.

6. Datblygiad Staff

Argymhelliad 4 Dylai'r Uned Hyfforddi, fel rhan o hyfforddiant ac anwythiad, sicrhau bod yr holl staff, gan adeiladu ar wersi a ddsygydd tra'n cyflwyno cynllun peilot, dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Argymhelliad 5 Dylai'r Uned Hyfforddi, fel rhan o hyfforddiant ac anwythiad, sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn medrau llafar Cymraeg sylfaenol.

Argymhelliad 6 Dylai'r weithdrefn werthuso flynyddol gynnwys trafodaeth ar ddarblygu medrau'n y Gymraeg yng ngyddestun:

- y dosbarthiad swyddi,
- yr holiadur iaith a gwblhawyd yn 2010,
- ymdreichion sydd eisioes ar waith i wella medrau,
- awydd i wella medrau, a
- o safbwynt Swyddogion Datblygu, disgwyliadau Awdurdodau Lleol ar SNAP Cymru.

Argymhelliad 7 Dylid diwygio'r ffurflen werthuso er mwyn cofnodi'r drafodaeth.

Argymhelliad 8 Yn seiliedig ar yr anghenion hyfforddi a adnabyddwyd, a hynny mewn trafodaeth â'r Canolfannau Iaith, dylai'r Uned Hyfforddi lunio rhaglen flynyddol o ddatblygiad staff.

7. Recriwtio

Argymhelliad 9 Dylai'r Uned Adnoddau Dynol sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio'n cymryd ystyriaeth o'r dosbarthiad swyddi a amlinellir yn Atodiad 1 yn nhermau manyleb person, swydd-ddisgrifiad ac hysbysebu.

8. Cymeradwyaeth

Argymhelliad 10 Dylid cyflwyno'r ddogfen hon i'r Grwp Rheolaeth Gweithredol, Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am eu hystyriaeth.

Atodiad 11

Pennawd Cynllun Iaith	Data
Polisiau a Mentrau Newydd - prif ffrydio	Nifer a % y polisiau a mentrau newydd a oedd yn destun asesiad effaith ieithyddol
Ymdrin â'r Cyhoedd – Gwasanaeth Wyneb yn Wyneb	Nifer a % Swyddogion Teulu a Phobl Ifanc ble nodir y Gymraeg fel sgil hanfodol a % y rhai a lanwyd gan siaradwyr Cymraeg.
Ymdrin â'r Cyhoedd Mewn Ffyrdd Eraill – Technoleg Gwybodaeth	Nifer o gynlluniau gwella sydd wedi <ul style="list-style-type: none"> ▪ eu paratoi ▪ eu gweithredu'n llawn yn dilyn asesiad gan ddefnyddio cynllun asesu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd.
Staffio	Nifer a % o staff sy'n medru siarad Cymraeg fesul adran wasanaeth; yn ôl gradd y swydd; a fesul gweithle.
Staffio	Nifer y swyddi a hysbysebwyd ble nodwyd y Gymraeg fel sgil hanfodol a'r % a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.
Hyfforddiant Iaith Gymraeg	Nifer a % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith	Nifer a % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
3ydd Parti – Gwasanaethau ar Gytundeb	Nifer a % o gytundebau a osodwyd sy'n cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith.
Cwynion	Nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd am weithrediad cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau'r sefydliad.
Defnydd o Wasanaethau Cyfrwng Cymraeg	Canolfannau galw, llinellau ffôn, apps – nifer a % y defnydd o'r Cymraeg fesul Gwasanaeth.
Gwaith Achos	Nifer a % a trwy gyfrwng y Gymraeg.
Taflenni Gwybodaeth a Chyhoeddiadau	Nifer a % a trwy gyfrwng y Gymraeg.